# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**DYDD** Iau, 7 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. McEvoy, Rheolwr diogelwch y ffyrdd a traffig
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Regeneration Meeting Room, County Hall, Carmarthen - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP. - 9.00 - 9.12 am

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. GORCHMYNION TRAFFIG PARC ARFORDIROL Y MILENIWM

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi cynigion i gyflwyno gwaharddiad o ran aros ar unrhyw adeg, ynghyd â Gorchmynion Parcio Oddi ar y Stryd yn y lleoliadau canlynol ym Mharc Arfordirol y Mileniwm, fel y nodir yn atodiad 1 yr adroddiad, er mwyn hwyluso llif y traffig a sicrhau parcio trefnus yn y lleoliadau canlynol:-

a) Heol y Ffatri, Parc Gwledig Pen-bre,
b) Y ffordd sy'n arwain i'r maes parcio, ger Parc Carafanau Shoreline, Pen-bre
c) Ffordd fynediad i faes parcio Meysydd Gŵyl, Llanelli,
d) Ffordd fynediad o Ffordd Gyswllt Porth Tywyn i'r maes parcio.

Rhoddwyd gwybod yn dilyn ymgynghori cychwynnol ynghylch y cynigion â'r ymgyngoreion statudol, fod pedwar gwrthwynebiad/sylwadau wedi dod i law, fel y manylwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad ynghyd ag ymatebion y swyddog iddynt. Argymhellwyd bwrw ati â'r cynigion, fel y manylwyd yn Atodiad 1, a rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyr am hynny.

**PENDERFYNWYD**

**2.1 Nodi'r gwrthwynebiadau/sylw a oedd wedi dod i law i'r cynnig i gyflwyno Gwaharddiad o ran Aros ar unrhyw adeg ynghyd â Gorchmynion Parcio Oddi ar y Ffordd mewn amrywiol leoliadau ym Mharc Arfordirol y Mileniwm, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, ond bod y Cyngor yn mynd ati i gyhoeddi'r cynigion yn ffurfiol.**

**2.2 Rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyr am benderfyniad y Cyngor i fwrw ymlaen â chyhoeddi'r cynigion**

**3. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD - 9FED MAWRTH, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2018 gan ei fod yn gofnod cywir.**

**4. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIAD - 26AIN MAWRTH, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2018 gan ei fod yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________________ | ____________________ |
| **AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** | **DYDDIAD** |